Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 39 – 22 IONAWR 2010

Mae yna ddau ddigwyddiad hollol wahanol wedi'u trefnu gan Bwyllgor Rhaglen y Morlan wythnos nesaf – a gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu cefnogi'r ddau ohonynt, neu ddweud wrth eraill amdanynt.

CYNNAU CANNWYLL O OBAITH
12.00-2.00, Mercher, 27 Ionawr
I nodi Diwrnod Cofio'r Holocost 2010, mae Morlan yn darparu cyfle i chi ymdawelu, myfyrio a chynnau cannwyll dros ddioddefwyr hil-laddiadau, ac fel arwydd o obaith ar gyfer y dyfodol. Thema'r diwrnod eleni yw ***Etifeddiaeth Gobaith*** ac mae'r diwrnod hefyd yn nodi 65 mlynedd ers rhyddhau Auschwitz-Birkenau. Mae gan bob un ohonom gyfle i fod yn rhan o'r Etifeddiaeth Gobaith, trwy wrando ar leisiau'r rhai sydd wedi goroesi a defnyddio'u gobeithion a'u hatgofion nhw i helpu creu dyfodol gwell. Galwch mewn yn ystod eich amser cinio – arhoswch am ychydig funudau neu'n hirach. Croeso i bawb.

Gallwch hefyd gynnau cannwyll rithwir ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost – cliciwch yma.

TRA BOD DYNOLIAETH FE FYDD AMAETHU
Anerchiad gan Elin Jones, AC fel rhan o'r arddangosfa *Byw ar y Tir*
7.00, nos Wener, 29 Ionawr
Mae'r arddangosfa – a fydd i'w gweld yn y Morlan o ddydd Llun nesaf i 26 Chwefror – yn cynnwys 20 panel o ffotograffau a thestun dwyieithog sy'n darlunio holl elfennau bywyd amaethyddol Cymru ers diwedd y 19^{eg} ganrif, a'r ffordd y mae'r elfennau hynny wedi newid dros amser. Byddwn yn dathlu'r arddangosfa hon a phwysigrwydd amaethu yng Nghymru ar 29 Ionawr gydag anerchiad gan Elin Jones. Noson anffurfiol fydd hi – cyfle i fwynhau'r arddangosfa dros baned a sgwrs. Mynediad am ddim – croeso i bawb. Diolch eto i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am gael benthyg yr arddangosfa hon.

Nodir yma'r digwyddiadau eraill sydd ymlaen yma dros y bythefnos nesaf.

CYNEFIN Y WERIN / ACADEMI HEDDWCH CYMRU
1.30, dydd Sadwrn, 23 Ionawr
Cyfarfod pellach i drafod a chynllunio ar gyfer yr ymgyrch i sefydlu Academi Heddwch i Gymru.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 27 Ionawr
Cyfarfod misol (dydd Mercher ola' bob mis) i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 4 Chwefror
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

CLIMATE CAMP CYMRU
Dydd Sadwrn-dydd Sul, 6-7 Chwefror
Penwythnos o baratoi ar gyfer 2010 ar gyfer unrhyw un sy'n poeni am faterion amgylcheddol. Manylion pellach: www.climatecampcymru.org.

RHAGHYSBYS (CYNNAR IAWN!) – DATHLU'R PUMP!
Nos Iau, 22 Ebrill-Prynhawn Sul, 25 Ebrill
Mae Canolfan Morlan yn 5 oed eleni ac rydym yn cynnal gŵyl i ddathlu'n pen-blwydd! Manylion pellach i ddilyn – ond, yn y cyfamser, nodwch y dyddiadau yn eich dyddiadur! Bydd arddangosfa gan grŵp celf Plas Lluest hefyd yn rhan o'r dathlu – bydd honno i'w weld o 20 Ebrill i 16 Mai.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr